# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd
28 Ionawr 2021

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS (Cadeirydd)**,** Zoe Richards (Ysgrifennydd), Rebecca Phillips (cofnodion), Rhys Bowler, Megan Thomas, Helga Uckermann, Vin West, William Fawcett, Marg McNiel, Petra Kennedy, Jan Thomas, Tony Crowhurst, Jane Hutt AS Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, Charis Moon , Stephen Thomas, Alison Tarrant, Terry Mills, Colin, Claire Bates, Karen Warner, Peter Jones, Nicola Hollister, Anna Parry, Grace Krause, Kat Williams, Sam Stickland, Adele Rose-Morgan, Adele Battaglia, Emma Bennett, Sian Davies, Wayne Crocker, Samantha Stickland, Vin West, Irina Erchova, Mathew Xerri, Jon Luxton, Glyn Roberts, William Fawcett, White Rose, Becca, Jan Underwood.

**Ymddiheuriadau:** Rhian Davies (Anabledd Cymru), Louise McGrath (Cyngor Cymru i Bobl Fyddar)

## 1. Croeso a chyflwyniadau.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb.

## 2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Ail-etholwyd Mark Isherwood AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd. Ail-etholwyd Zoe Richards, ar ran Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru, i ddarparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth y Grŵp.

**Cynigiwyd gan**: Petra Kennedy
**Eiliwyd gan**: Helga Uckermann

Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Ariannol cyn y cyfarfod. Cytunwyd eu bod yn gywir ac yn wir.

**Cynigiwyd gan**: Bill Fawcett
**Eiliwyd gan**: Jan Thomas

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac yn wir. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu neu'r eitemau ar yr agenda.

**Cynigiwyd gan**: Helga Uckermann
**Eiliwyd gan**: Megan Thomas

## 4. Gwisgo Mygydau.

Cafwyd cyflwyniad gan Grŵp Cymorth Pobl Fyddar Caerdydd a'r Cylch, yn tynnu sylw at ddau bwynt:

- Mae rhai staff fferyllol yn gwrthod gostwng eu masgiau i hwyluso darllen gwefusau.
- Mae gan rai o gyfryngau'r wasg genedlaethol fynediad cyfyngedig at is-deitlau yn ystod cyhoeddiadau pwysig. Er enghraifft, isdeitlwyd darllediad teledu diweddar gan Dr. Frank Atherton ar ITV ond nid ar y BBC.

Gofynnodd Grŵp Cymorth Pobl Fyddar Caerdydd a'r Cylch i'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu ar eu rhan at yr awdurdodau perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth a rhannu profiadau personol, cytunodd y grŵp bod diffyg dealltwriaeth o hyd ymhlith y cyhoedd a chynorthwywyr manwerthu ynghylch y canllawiau a sut mae masgiau wyneb yn effeithio ar wahanol gymunedau. Daethpwyd i'r casgliad bod angen mwy o ymwybyddiaeth ac addysg. Cytunodd y grŵp ar y camau gweithredu a ganlyn i gefnogi hyn, a'i annog.

**Camau i'w cymryd:**
- Ysgrifennu at Gonsortiwm Manwerthu Cymru.
- Ysgrifennu at Leslie Griffiths AS yn gofyn iddi godi'r materion hyn eto gyda'r archfarchnadoedd.
- Cysylltu â rhai o'r cyfryngau mwy yng Nghymru er mwyn helpu i ledaenu'r negeseuon.
- Ysgrifennu at Chris Llewellyn, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynd ar drywydd y materion gyda'r awdurdodau lleol a'r archfarchnadoedd.
- Ysgrifennu at Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Undebau'r Athrawon a Llywodraethwyr Ysgol i ofyn am eu cymorth i ledaenu gwybodaeth.

Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i rannu gwybodaeth generig ag ysgolion yn eu hardal.

Bill Fawcett - rhoddodd wybod i'r grŵp fod masgiau persbecs wyneb llawn ar gael yn rhad ac am ddim o https://tinyurl.com/yanplkq3

## 5. Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ymateb i gwestiynau o'r cyfarfod blaenorol.

Cyn dechrau'r eitem hon, rhoddodd Tony Crowhurst wybod i'r grŵp ei fod, yn dilyn cyfarfod diweddar, wedi cael gwybod bod diffygion yn y diffiniad gwreiddiol o warchod. Felly gofynnodd a yw'r data'n gyfredol ac a fydd y rhai sy'n hynod o agored i niwed yn cael eu hadnabod yn gywir ar gyfer y brechlyn.

Rhannodd Emma Bennett ymateb drwy'r blwch sgwrsio. Cytunodd Zoe i

ddosbarthu’r ymateb hwn i'r grŵp yn dilyn y cyfarfod.

**Cam i’w gymryd:**
- ZR i ddosbarthu’r canllawiau brechu i'r grŵp.

**Map See Around Briton - Marg McNeil.**

Dosbarthodd Marg lythyr agored cyn y cyfarfod yn rhestru ymdrechion SAB hyd yma.

Mae SAB yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu’n weithredol â’u gwefan / ap, a’u hyrwyddo. Mae'r ap yn cynnig cyfraniad trawsnewidiol yn ystod COVID-19 ac wedi hynny, i bob lleoliad a dinesydd, yn enwedig dinasyddion anabl yng Nghymru.

Cyfeiriodd Marg at lythyr Jane Hutt at y Grŵp Trawsbleidiol, a ddaeth i law ym mis Rhagfyr. Roedd y llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract i gonsortiwm ymchwil gynnal gwaith ymchwil i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Dywedodd y consortiwm ymchwil ei fod yn ymchwilio i sefydliadau pobl anabl ond nododd Marg na chysylltwyd â SAB byth.

Er mwyn i newid ddigwydd, teimlai y dylai Gweinidogion achub ar y cyfle a chymryd camau cadarnhaol a menter bersonol i'w ddatblygu. Dyna’r hyn yr oedd Marg yn ei geisio ar ran SAB.

O ran y gwaith ymchwil, dywedodd Jane Hutt AS nad oedd yn rhy hwyr i ymgysylltu â Diverse Cymru a bydd yn sicrhau bod gwaith dilynol yn cael ei wneud. Bydd hefyd yn ymateb, yn llawn, i'r llythyr agored. Ychwanegodd fod adroddiad y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd ar effaith COVID-19 ar bobl anabl ar fin cael ei gyhoeddi ac y bydd yn ddarn gwerthfawr o dystiolaeth, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yng Nghymru, dan arweiniad pobl anabl.

Ychwanegodd Marg fod Dirprwy Gynghorydd Meddygol Lloegr wedi cynghori y dylai grwpiau anabledd gymryd rhan weithredol mewn cynadleddau i'r wasg. Awgrymodd felly y dylai Jane Hutt AS hyrwyddo hyn gyda Llywodraeth Cymru a chenhedloedd Celtaidd eraill.

**Cyllidebau Iechyd Personol - Rhys Bowler.**

Cyfarchodd Rhys y Gweinidog i ofyn am ei chymorth i’w ymgyrch i gyflwyno Cyllideb Iechyd Bersonol i roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl dros y gofal maen nhw'n ei gael. Mae Cyllidebau Iechyd Personol eisoes yn bodoli yn Lloegr a'r Alban ac mae Rhys yn ymgyrchu dros hyn yng Nghymru. Mae'n teimlo bod y system bresennol yn mynd yn groes i'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Mae gan Rhys nychdod cyhyrol duchenne, mae’n defnyddio cadair olwyn ac yn

gwbl ddibynnol ar beiriant anadlu. Mae angen gofal 24 awr arno, ond nid yw'n cael hynny eto. Asiantaethau sy’n darparu gofal iddo ar hyn o bryd ac maent yn aml yn ei chael hi'n anodd darparu'r cymorth unigol yr hoffai ei gael. Hoffai gael rheolaeth lawn ar y cronfeydd a'r gwasanaethau gofal sydd eu hangen arno.
Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnig gweithredu Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol. Mae Ymddiriedolaeth o’r fath yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr, a benodir gan y sawl sy’n cael y gofal, reoli swm cytunedig o arian y GIG mewn ffordd sy'n rhoi'r unigolyn yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau. Cred Rhys na fydd hyn yn rhoi dewis a rheolaeth lwyr iddo a byddai'n well ganddo gael yr arian yn uniongyrchol.
Diolchodd Jane Hutt AS i Rhys a chytunodd i rannu’r wybodaeth gyda Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ychwanegodd fod parhad gofal yn hanfodol bwysig, yn enwedig gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Sicrhaodd JH Rhys fod ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r mater hwn yn ofalus a bydd ei dystiolaeth yn cyfrannu ato. Ychwanegodd fod gan Gymru'r ddeddfwriaeth i gael hyn yn iawn ac mae ei weithredu yn hanfodol.

**Galwad am Gomisiynydd Pobl Anabl - Bryn.**

Yn y cyfarfod blaenorol, cynigiodd Aelodau Hunan-eiriolaeth Prestatyn y dylid penodi Comisiynydd Anabledd Dysgu. Yn dilyn trafodaeth, ac i osgoi gwahanu anableddau, cytunodd y grŵp i gefnogi galwad am Gomisiynydd Pobl Anabl a gofyn am ymateb gan Jane Hutt AS.

Cyfeiriodd Jane Hutt AS at y gwaith ymchwil presennol sy'n cael ei wneud sy'n cynnwys cryfhau cydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol. Mae'r gwaith ymchwil yn edrych ar ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r rôl y mae comisiynwyr yn ei chwarae. Sicrhaodd y grŵp fod gwaith yn cael ei wneud a'i drafod ar hyn o bryd. Ychwanegodd fod ymgynghoriad wedi digwydd gyda'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd a sefydliadau pobl anabl ac nid yw'n rhy hwyr i ddod â'r safbwyntiau yn ôl o’r Grŵp Trawsbleidiol.

Ychwanegodd Helga Uckermann fod yr alwad am gomisiynydd anabledd dysgu wedi'i chychwyn oherwydd bod pobl ag anableddau dysgu yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed ac nad oes gan bobl amser i wrando.

## 6. Rhwystrau strwythurol i berthnasoedd agos.

Oherwydd cyfyngiadau amser, cynigiodd Mencap symud yr eitem hon i'r cyfarfod nesaf.

## 7. Y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf cyn diddymiad arfaethedig y Senedd. Awgrymodd MI y

dylid cytuno ar adroddiad gwaddol byr ar gyfer y senedd nesaf ac ychwanegu hyn at yr agenda. Gofynnodd hefyd am eitemau ar gyfer yr agenda gan y grŵp.

Dyddiad ac amser i'w drefnu.

**Cam i’w gymryd:**

- Ychwanegu’r gwaith o lunio adroddiad gwaddol at yr agenda nesaf.